# Myringoplasti

## Cyngor i Glaf ar ei rhyddhad o'r ysbyty

**Y clwyf:**

Mae yna dri math cyffredin o glwyfau llawfeddygol o ran atgyweirio tyllau yn nrwm y glust . Mae'r rhain yn cynnwys blaen-glustiol (clwyf o flaen y glust), ôl-glustiol (clwyf y tu ôl i'r glust) a thrwy'r glust (per meatal – sef dynesiad drwy gorn y glust). Bydd gan gleifion rhwymyn pen ar ôl llawdriniaeth blaen-glustiol neu ôl-glustiol. Cyn rhyddhau o'r ysbyty, bydd y tīm meddygol yn tynnu'r rhwymyn pen. Ar yr adeg yma bydd y clwyf yn cael ei wirio am unrhyw broblemau.

Os mai fel claf allanol gawsoch y llawdriniaeth, cewch gyngor ar sut i gael gwared ar y rhwymyn eich hun y diwrnod canlynol.

Fe'ch hysbysir os oes gennych chi bwythau y gellir eu toddi neu os nad yw'ch pwythau'n toddi a bod angen eu tynnu. Gall eich nyrs practis meddyg teulu dynnu pwythau (fel arfer 6-10 diwrnod ar ôl llawdriniaeth). Bydd angen i chi wneud apwyntiad gyda'ch nyrs practis meddyg teulu er mwyn trefnu hyn.

Mae'n bwysig cadw'r glust yn sych wedi'r llawdriniaeth. Yn arbennig felly, osgowch olchi gwallt nes bod y pwythau wedi'u tynnu. Efallai yr hoffech roi cynnig ar siampŵ sych os yw eich gwallt yn teimlo'n seimllyd. Mae'n bwysig hefyd cadw corn y glust yn sych wedi llawdriniaeth (hyd nes y bydd y llawfeddyg yn dweud wrthych fel arall) drwy ddefnyddio darn o wlân cotwm wedi'i orchuddio mewn Vaseline pan yn y bath/cawod. Peidiwch â rhoi eich pen dan ddŵr.

Pe bai eich clwyf yn chwyddo neu'n dechrau agor wedi'r llawdriniaeth, bydd angen i chi cael eich gweld gan yr ystafell driniaeth Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) neu'ch Meddyg Teulu. Mae manylion cyswllt yr ystafell driniaeth ENT ar y daflen hon.

**Pecyn corn y glust:**

Fel arfer, gosodir pecyn yng nghorn y glust wedi'r llawdriniaeth er mwyn dâl y grafft yn ei le ac i leihau'r risg o haint. Y math o becyn mwyaf cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio yw 'BIPP' (rhwyllen rhuban wedi'i gwlychu mewn past paraffin ïodin bismwth) sy'n lliw melyn. Yn aml, defnyddir mwy nag un pecyn. Bydd y pecyn hwn yn cael ei dynnu mewn clinig oddeutu 3 wythnos wedi'r llawdriniaeth fel arfer. Ambell waith gall ymateb alergaidd i becyn 'BIPP' ddigwydd. Fel arfer bydd hyn yn amlwg ar ffurf chwyddo a phoen o gwmpas corn y glust. Os yw hyn yn digwydd, cysylltwch â'r ystafell driniaeth ENT/eich ward derbyn er mwyn trefnu i'r glust gael ei asesu gan y meddyg ENT sydd ar alwad.

Efallai y bydd angen tynnu’r pecyn ‘BIPP’ ynghyd â rhoi pecyn o fath wahanol i mewn.
Os yw’r rhwyllen rhuban yn dechrau dod allan o gorn y glust, peidiwch â’i bwyso yn ôl mewn na’i dynnu allan. Defnyddiwch siswrn i dorri’r darn rhydd.

**Cyfnod adfer:**
Mae’r poen ac anghysur yn tueddu i fod yn ysgafn ac fel arfer mae'n gwella o fewn ychydig ddyddiau. Byddwch yn cael cyngor ar sut i leddfu’r poen cyn i'ch nyrs eich rhyddhau. Mae'r rhan fwyaf o gleifion angen 2-3 wythnos i ffwrdd o'r gwaith ysgol er mwyn gwella. Ni argymhellir codi pethau trwm/rhoi straen o unrhyw fath ar eich corff/gwneud unrhyw ymarfer egnïol yn ystod y cyfnod hwn.

**Hedfan:**
Ni ddylwch hedfan am 3 mis yn dilyn y llawdriniaeth.

**Blasu:**
Mae'r nerf blasu yn rhedeg ar draws drwm y glust a gellir ei ymestyn/ei symud/ei dorri er mwyn i'r llawdriniaeth gael ei berfformio. Gall hyn achosi newid yn eich profiad o flas a fydd fel arfer yn sefydlogi o fewn ychydig fisoedd.

**Ôl-driniaeth:**
Fe ddylech chi gael eich gweld yn y clinig cleifion allanol ymhen tua 3 wythnos wedi’r llawdriniaeth. Ar yr adeg hynny, bydd y pecyn yn cael ei dynnu o gorn y glust a bydd y grafft yn cael ei wirio. Os na fyddwch chi'n derbyn yr apwyntiad hwn, ffoniwch y swyddfa archebu apwyntiad i gleifion allanol ar 01495765055.

**GWYBODAETH BRYS I GLAF SYDD WEDI EI RHYDDHAU O’R YSBYTY**

**09:00 to 17:00 O ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc):**
Cysylltwch â’r ystafell Triniaeth ENT ar 01633234018
**Wedi 17:00/dros nos (oedolion)**: Ward C0 01633 493926

**Wedi 17:00/dros nos (plant):** Ward C1 01633 493609

**Os bydd argyfwng, ewch i’ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf**

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”**